**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 13eg Chwefror 2024 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Dan Evans (Cadeirydd), Lynford Thomas, Johnny Davies, Gerwyn Owen, Lyn Williams, Alan Henson, Melinda Williams, Haf Hughes

1. **YMDDIHEURIADAU** Cyng. Glyn Davies, Hywel Ifans, Harry Williams

2. **PERSONOL**
   Estynnnwyd cydymdeimlad â'r Cyng. Harry Williams ar golli chwaer-yng-nghyfraith yn ddiweddar a chroesawyd y Cyng. Haf Hughes yn ôl i'w chyfarfod cyntaf yn dilyn colli ei thad, ein cyn-Glerc Mr. Bryn Hughes.

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL Dim i'w datgelu**

4. **CADARNHAU COFNODION 12/12//2023**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Gerwyn Owen a derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**

**9 (mis Rhagfyr) Cofrestrwyd Hywel Ifans ar gwrs** Ymgysylltiad Cymunedol - Modiwl 8 - Yn Gymraeg ar y 13eg o Fawrth ar gost o £38.00.
**9 (mis Tachwedd). Y Vale.** Cafwyd ymateb gan Elin Prysor parthed ceisiadau cynllunio Y Vale i'r dyfodol.
**13 iv. Hewl Troedyrhiw. Cyfeirnod 589551**. Derbyniwyd ymateb yn cadarnhau bod archeb ar gyfer y gwaith wedi'i godi.
**13.v Pwysedd Dŵr Dihewyd.** Derbyniwyd neges ffôn gan Reolwr Ardal Dŵr Cymru yn cadarnhau bod y gwaith adfer wedi ei gwblhau.
**11.n Bocs Halen.** Y bocs yn ei le ar ben lôn Penlon.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

   - Yn dilyn yr archwiliadau diweddar nodwyd nad yw'n fwriad gan y Sir i werthu ei ffermydd.
   - Bydd y Cabinet yn cwrdd ar y 29ain i gadarnhau'r gyllideb gydag amcangyfrif o godiad o tua 12.9% i Dreth y Cyngor. Llongyfarchwyd Ysgol Felinfach am dderbyn adroddiad da gan Estyn.
   - Soniodd am broblem tresmaswyr ym mwthyn Llety Rhys. Mae'r heddlu'n ymwybodol ac yn cadw golwg ar y sefyllfa.
   - Trafodwyd llythyr a dderbyniwyd gan berchnogion maes carafannau Hafod Brynog parthed potiau blodau Y Brynog sydd yn creu rhwystr i gerddwyr. Nododd y Cyng. Ceris Jones ei bod mewn trafodaethau ag Adran y

Priffyrdd ac yn aros am ymateb swyddogol gan Rhodri Llwyd, Pennaeth yr Adran.

**7. CYLLID**

**i.** Tâl y Clerc mis Rhagfyr a Mis Ionawr £213.57
**ii.** Anfonwyd y ffurflen Praesept yn gwneud cais am £9950
**iii.** Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd trosgwlyddo £150 i Gronfa'r Cadeirydd
**iv.** Talwyd swm o £288.00 (yn cynnwys TAW) i'r Cyngor Sir am y bocs halen.
**v.** Talwyd £35.98 (yn cynnwys TAW) i Antur Cymru/Telemat am gynnal yr ebost.
**vi.** Nodwyd bod y taliad i Zoom yn codi £10.82 i £129.90
**vii.** Solway. Daeth cais gan Solway a £40+TAW i gywiro camgymeriad y meinciau. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd gofyn i grefftwr lleol i wneud y gwaith adfer ac i gysylltu â Solway i ddatgan ein siom.
**viii.** EISTEDDFOD DIHEWYD** Gohebiaeth isod

**8. CYFARFOD SWYDDOGION CYNGOR SIR CEREDIGION 31/1/24**
Mynychwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd a'r Clerc. Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd a soniodd am yr her ariannol oedd yn wynebu'r Cyngor Sir yn ystod 2024-25.
Trafodwyd cais y Prif Weithredwr i'r Cynghorau Tref a Chymuned i fabwysiadu rhai o'r gwasnaethau er helpu i leihau'r baich ar y Cyngor Sir, a rhoddwyd tan 14 Chwefror i fedru newid y Praesept i adlewyrchu unrhyw newidiadau. Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor Cymuned fodd i fabwysiadu gwasanaethau o'r fath ar fyr rybudd. Nodwyd serch hynny pe bai rhagor o wybodaeth/arweiniad/cefnogaeth yn dod o du'r Cyngor Sir byddai'r aelodau yn barod i'w hystyried.

**9; PWYLLGOR ARDAL CEREDIGION UN LLAIS CYMRU 18/1/24**

Oherwydd salwch nid oedd yn bosib i'r cynrychiolwyr gymryd rhan yn y cyfarfod hwn.

.

**10.CYNLLUNIO.**

A240097. Wendy Buller Rhydyfran Cottage. Estyniad un llawr. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd cefnogi'r cais.**

**11. GOHEBIAETH**

a.Derbyniwyd llythyr a thystygrif gan **Noah;s Ark** i ddiolch am y £50.00
b.Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y £50 gan **Cerebal Palsy Cymru**
c.Derbyniwyd llythyr gan Liz Jenkins PC611 Swyddog ar y Tïm Plismona yn cyflwyno ei hunan ac yn cynnig dod i un o'n cyfarfodydd. **Penderfynwyd** casglu materion i'w trafod a'i gwahodd yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
ch. **Hyfforddiant.** Derbyniwyd cais gan yr Adran Safonau a Moeseg am gopi cyfredol o'r Polisi Hyfforddiant. Anfonwyd copi atynt ar yr 2il o Ionawr.

d. **Eisteddfod Dihewyd**. Derbyniwyd cais am gefnogaeth ariannol i'r Eisteddfod sy'n cael ei chynnal ar Fai 17, sef cyn y tro nesaf y byddwn yn trafod rhoddion. **Penderfynwyd** trafod y cais yn y cyfarfod hwn a chynigiwyd £125 gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Williams**. Penderfynwyd** trosglwyddo £125.00 o 'Gostau Eraill' i 'Rhoddion' er mwyn cwrdd â'r gost. Derbyniwyd yn unfrydol.

ff. **Arolwg Bancio Ben Lake.** Derbyniwyd arolwg gan Ben Lake AS am y sefyllfa bancio'n lleol. Trafodwyd rhai o'r problemau a **phenderfynwyd** byddai'r Clerc yn ymateb i'r arolwg.

**g. Cymdeithas yr Iaith:** Derbyniwyd llythyr yn gofyn i'r cyngor i gefnogi'r galw am sefydlu Erthygl 4 ar draws y Sir. **Penderfynwyd** byddai'r Clerc yn anfon llythyr at Gyngor Sir Ceredigion yn cefnogi'r cais.

**12. UNRHYW FATER ARALL**

a. **Llifogydd**. Oherwydd llifogydd wrth groesffordd Penlangroes, cysylltwyd â'r Cyngor Sir.
b. **Banc Poteli**. Gofynnodd y Cyng. Gerwyn Owen a oedd hi'n fwriad gan y Cyngor Sir i waredu'r banciau poteli. Y Cyng. Ceris Jones i wneud ymholiadau.
c. Cymorth Cyntaf. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau parthed hyfforddiant cymorth cyntaf i gynnwys hyfforddiant deffib.
d. **Goleuadau Stryd Cribyn.** Ar gais y Cyng**.** Lyn Williams, penderfynwyd cysylltu â'r Sir unwaith eto parthed goleuadau stryd: Bank Villa, y Long Room/Swyddfa Bost.
e. Ffordd Cribyn i Droedyrhiw. Mae cryn dipyn o beiriannau trwm a loriau mawr yn defnyddio'r hewl hon sydd nid yn unig wedi arwain at ddirywiad pellach i'w chyflwr ond hefyd yn achosi pryder o ran diogelwch defnyddwyr eraill a phreswylwyr. Disgynnodd peiriant trwm oddiar ar lori yn ystod yr wythnos ddiwethaf a danlinellodd dirfrifoldeb y sefyllfa. Penderfynwyd ysgrifennu at Bennaeth Adran y Priffyrdd i ofyn am gael gau'r hewl yn syth i beiriannau trwm a loriau mawr.

13. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 12fed yn Neuadd Dihewyd